Chartered Institute of Fundraising

# HARNEISIO EFFAITH GYMDEITHASOL RHOI DRWY'R GYFLOGRES

Canllaw i fusnesau yng Nghymru ar sut i fabwysiadu'r cynllun a'i defnyddio i wneud gwahaniaeth cadarnhaol





# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Ynglŷn â Rhoi Drwy'r Gyflogres | 3 |
| Yr achos busnes dros Roi Drwy'r Gyflogres | 5 |
| Sut i sefydlu cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres | 7 |
| Defnyddio cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres i'w llawn botensial | 9 |
| Astudiaeth achos cwmni: Trawsnewid Rhoi: Cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres NatWest | 12 |
| Dechrau ar eich taith Rhoi Drwy'r Gyflogres | 13 |
| Casgliad | 14 |

# RHAGAIR Y GWEINIDOG

Mae ein hanes, a'n diwylliant, yn un o ddod ynghyd a chefnogi'r rhai mwyaf anghenus.

Yn hanesyddol, cafodd sefydliadau Mwynwyr - fel y rheini yng Nghoed-duon, Llanhiledd a Chefn Fforest - eu hadeiladu a'u cynnal a chadw drwy ddidyniadau cyflog gwirfoddol gan y mwynwyr eu hunain.

Er nad yw hyn efallai'n ddyngarwch yn y synnwyr traddodiadol o unigolion cefnog yn rhoi arian, mae'n cynrychioli rhyw fath o gymorth cydfuddiannol a rhoi cyfunol - dyngarwch llawr wlad wedi'i wreiddio mewn cydlyniant dosbarth gwaith. Y diben oedd codi cymunedau, meithrin dysgu a darparu cyfleoedd hamdden. Mae'r sefydliadau hyn yn parhau i chwarae rôl hanfodol yn y gymuned, gyda llawer yn dod yn hybiau cynnes, yn rhywle i fynd i'r rheini sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig.

Rydyn ni'n parhau i weld yr un nodweddion heddiw wrth i lawer o bobl Cymru gydnabod y cyfraniad hanfodol y mae elusennau cymdeithasol yn ei wneud. Yn 2024, amcangyfrifwyd fod pobl a oedd yn byw yng Nghymru wedi rhoi swm rhyfeddol o £645 miliwn i elusennau drwy roddion untro a rheolaidd.

Fel llywodraeth, rydym yn cynnig Rhoi trwy'r Gyflogres i bob cyflogai a byddem yn annog pob cyflogwr yng Nghymru i fabwysiadu mentrau tebyg. Trwy weithredu Rhoi trwy'r Gyflogres, mae'n caniatáu i ni i gyd chwarae rhan mewn gwneud gwahaniaeth.



**Jane Hutt AS,**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant,**
**Cyfiawnder Cymdeithasol,**
**y Trefnydd a'r Prif Chwip.**

# CYFLWYNIAD

## Rydym am i bob busnes yng Nghymru a'i weithwyr fanteisio ar y buddion y mae'r cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres yn eu cynnig.

Cyflwynwyd Rhoi Drwy'r Gyflogres (a elwir hefyd yn 'Rhoi wrth Ennill') ym 1987 i annog a galluogi trethdalwyr i gefnogi achosion da drwy eu cyflog yn gyfnewid am gymhellion treth. Ers hynny mae wedi dod yn ffordd bwerus o godi arian ar gyfer elusennau cofrestredig, gan wobrwyo busnesau a'u gweithwyr am eu haelioni.

Mae potensial enfawr i ddefnyddio cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres i gryfhau sector elusennol Cymru fel bod gan bawb y cyfleoedd a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Mae gan y wlad gymdeithas sifil gref ac amrywiol, gyda 5,316 o elusennau cofrestredig sy'n darparu ystod eang o wasanaethau hanfodol, o gadw teuluoedd allan o dlodi i amddiffyn a chadw mannau gwyrdd hardd.

Mae llawer o bobl Cymru yn cydnabod cyfraniad hanfodol y mudiadau hyn i gymdeithas. Yn 2024, amcangyfrifwyd fod pobl sy'n byw yng Nghymru wedi rhoi swm trawiadol o £645 miliwn i elusennau trwy roddion untro a rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn costau byw yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl roi, a nawr yw'r cyfle perffaith i sicrhau bod gan bob trethdalwr fynediad at y cynnig rhyddhad treth y mae Rhoi Drwy'r Gyflogres yn ei gynnig.

Ochr yn ochr â'r manteision clir i drethdalwyr, elusennau a'u buddiolwyr, gall Rhoi Drwy'r Gyflogres helpu unrhyw fusnes - ni waeth beth fo'i faint na'i drosiant - i wneud y defnydd gorau o'i effaith gymdeithasol. A thrwy wneud hynny, gallant gael gwobrau a chydnabyddiaeth am eu hymdrechion drwy'r Marc Ansawdd Rhoi Drwy'r Gyflogres.

Fodd bynnag, er gwaethaf bodoli ers bron i 40 mlynedd, nid yw llawer o fusnesau'n ymwybodol o'r manteision sydd gan y cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres i'w cynnig. I drawsnewid hyn, rydym wedi dod ynghyd fel cydweithfa o elusennau, Asiantaethau Rhoi Drwy'r Gyflogres, Mudiadau Codi Arian Proffesiynol a rhanddeiliaid y sector i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a helpu cynifer o fusnesau â phosibl yng Nghymru i'w fabwysiadu, a'i ddefnyddio i gyrraedd eu nodau.

Rydym yn deall, yn y byd prysur sydd ohoni, y gall fod yn heriol neilltuo'r amser i ddysgu am fenter newydd a deall sut y gellid ei hymgorffori mewn prosesau a gweithrediadau sefydledig. Felly, rydym wedi creu'r canllaw byr hwn sy'n cynnwys popeth sydd angen i chi ei wybod am y cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres, a sut i'w ddefnyddio i wneud gwahaniaeth cadarnhaol gydag enghreifftiau a thystiolaethau gan fusnesau sy'n gweithredu yng Nghymru a'u gweithwyr sy'n defnyddio cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres ar hyn o bryd i gyrraedd eu nodau.

P'un a na glywsoch chi erioed wedi clywed am y cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres, neu os yw'r cynllun ar waith gennych eisoes ac yn chwilio am ffyrdd newydd o harneisio ei effaith gymdeithasol, rydym yn gobeithio bod y canllaw hwn yn rhoi i chi'r wybodaeth a'r ysbrydoliaeth rydych yn chwilio amdani.

# YNGLŶN Â RHOI DRWY’R GYFLOGRES

## Mae Rhoi Drwy’r Gyflogres yn cysylltu elusennau â rhoddwyr sy'n deall trethi.

Mae Rhoi Drwy’r Gyflogres wedi'i gynllunio i wneud rhoi yn syml ac yn werth chweil i bob gweithiwr PAYE drwy ganiatáu iddynt wneud rhoddion untro neu reolaidd i'r elusennau o'u dewis.

Daw rhoddion yn syth allan o gyflog gros gweithwyr, cyn treth incwm ac ar ôl yswiriant gwladol. Felly, mae’n sicr o ostwng cost rhoi - os yw trethdalwr cyfradd safonol yn rhoi £10 drwy’r cynllun Rhoi Drwy’r Gyflogres, dim ond £8 fydd yn ei gostio. Ac mae'r gostyngiad treth yn cynyddu ar gyfer trethdalwyr cyfradd uwch ac ychwanegol, fel yr amlinellir yn y tabl isod.

**Arbedion trethdalwyr pan fyddant yn rhoi £10 drwy’r cynllun Rhoi Drwy’r Gyflogres***

| Cyfradda u Treth | Cost y rhodd | Elusen yn derbyn |
|---|---|---|
| Cyfradd Safonol | £8 | £10 |
| Cyfradd Uwch | £6 | £10 |
| Cyfradd Ychwanegol | £5.50 | £10 |

*Yn seiliedig ar gyfraddau treth incwm Cymru a Lloegr. Bydd cyfraddau treth Yr Alban yn wahanol.

**Beth yw barn y gweithwyr?**

Ar ôl gweithio i elusen o'r blaen, rwy'n deall y gall rhodd fach reolaidd wneud gwahaniaeth enfawr. Gall hyd yn oed swm bach fel £5 y mis wneud gwahaniaeth enfawr. Rwy'n dewis rhoi drwy'r cynllun 'Rhoi wrth ennill' sy'n golygu y gallaf wneud gwahaniaeth gyda rhodd reolaidd ac ar yr un pryd wneud gostyngiad bach i swm y dreth rwy'n ei dalu bob mis.
Fel hyn gall yr elusen rwyf wedi ei dewis a minnau elwa.

**Jared**
**Cyflogai yn Admiral Group PLC**

## Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i fod yn syml i fusnesau a'u cyflogeion ei ddefnyddio.

Er mwyn sicrhau bod rhoddion yn cyrraedd yr elusen a fwriadwyd a lleihau amser gweinyddu i gyflogwyr, mae gan y cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres seilwaith sefydledig sy'n cael ei oruchwylio gan CThEF. Mae'n rhaid i unrhyw fusnes sydd am gymryd rhan gofrestru ag Asiantaeth Rhoi Drwy'r Gyflogres (PGA) gymeradwy, a fydd yn gweithio gyda'ch Gweinyddwr Cyflogres neu'r pwynt cyswllt perthnasol i gasglu rhestrau o roddwyr a'u rhoddion bob tro y byddwch yn rhedeg y gyflogres. Felly, dim ond un trafodiad trydydd parti ychwanegol y mis sydd ei angen a gall eistedd ochr yn ochr â phrosesau Cyflogres eraill.

Ar hyn o bryd, mae 22 o Asiantaethau Rhoi Drwy'r Gyflogres a gymeradwywyd gan CThEF, y mae gan bob un ohonynt ei ddull ei hun o gefnogi cleientiaid. Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ymchwilio i amrywiaeth o fudiadau i ddod o hyd i'r un sydd orau i chi.

Unwaith y bydd y cynllun wedi'i sefydlu, gall Mudiadau Codi Arian Proffesiynol (PFOs) helpu i gynnal ymgyrchoedd drwy hyrwyddo'r cynllun i gyflogeion. Asiantaethau arbenigol yw'r rhain sydd wedi'u contractio gan elusennau i godi arian ar eu rhan drwy fynd i fusnesau gyda deunyddiau hyrwyddo a siarad â chyflogeion yn uniongyrchol am fanteision Rhoi Drwy'r Gyflogres. Os bydd gweithiwr eisiau cofrestru, gallant ddewis elusen o restr ddewisol yr asiantaeth - neu un arall o'u dewis - a bydd y PFO yn cysylltu â'r PGA i reoli'r gwaith papur dilynol.


**Beth yw barn y gweithwyr?**

"Roedd sefydlu rhoi wrth ennill yn syml ac yn cymryd llai na 5 munud. Mae yna amrywiaeth o elusennau i ddewis ohonynt i'w cefnogi, ac mae gallu rhoi bob mis i Tommy's, elusen sy'n agos at fy nghalon, yn ffordd mor hawdd o roi'n rheolaidd ac yn gwneud i mi deimlo fy mod i'n gwneud gwahaniaeth."

**Danielle**
**Cyflogai yn Admiral Group PLC**

## Cipolwg ar y dirwedd Rhoi Drwy'r Gyflogres

Mae'r ffeithlun isod yn dangos sut mae'r cynllun yn gweithio'n ymarferol a sut mae'r mudiadau dan sylw yn ei gefnogi.



# YR ACHOS BUSNES DROS ROI DRWY’R GYFLOGRES

## Mae Rhoi Drwy’r Gyflogres yn ffordd fforddiadwy o wella rhaglenni CSR.

Mewn byd sy'n gynyddol ymwybodol yn gymdeithasol, mae cael pwrpas y tu hwnt i elw yn rhan hanfodol o unrhyw strategaeth fusnes. Canfu arolwg diweddar gan NatWest fod 45% o fusnesau wedi dweud bod mentrau CSR wedi cael effaith gadarnhaol ar eu henw da, a dywedodd 39% eu bod yn helpu i gynyddu gwerthiant a theyrngarwch cwsmeriaid. Fodd bynnag, ystyriaethau ariannol a diffyg adnoddau oedd y ddau brif rwystr i weithredu mentrau o'r fath.

Gan fod Rhoi Drwy’r Gyflogres am ddim i'w fabwysiadu a bod yna ystod o opsiynau cost-effeithiol i dalu ffioedd prosesu, mae'n ffordd ardderchog o wella rhaglenni CSR heb roi straen ar gyllidebau. Ac unwaith y bydd y cynllun ar waith, mae yna amrywiaeth o ffyrdd y gall busnesau ei ddefnyddio i gryfhau gweithgareddau CRS, o gynnal ymgyrchoedd mewn ymateb i argyfyngau rhyngwladol, i gyflawni Marc Ansawdd Rhoi Drwy'r Gyflogres. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr adran ‘Defnyddio’r cynllun Rhoi Drwy’r Gyflogres i’w llawn botensial’.

**Beth yw barn busnesau?**

“Mae cydweithwyr Morrisons yn rhoi’n hael drwy roi drwy’r gyflogres. Gyda'i gilydd, mae cydweithwyr yn rhoi £28,000 bob mis i fwy na 230 o elusennau, ac enillodd Wobr Platinwm Rhoi Drwy’r Gyflogres yn 2024 hyd yn oed.”

**Morrisons**
**Archfarchnad Genedlaethol**

## Mae Rhoi Drwy’r Gyflogres yn cefnogi diwylliant cwmni cadarnhaol.

Gall Rhoi Drwy’r Gyflogres fod yn allweddol wrth greu diwylliant cwmni cadarnhaol, a all yn ei dro helpu i ddenu’r dalent orau a chadw cyflogeion gwerthfawr. Mae cynnig ffordd dreth-effeithiol i weithwyr roi i achosion sy'n bwysig iddyn nhw nid yn unig yn atgyfnerthu gwerthoedd busnes, ond hefyd mae’n tanlinellu eu hymrwymiad i roi mynediad i weithwyr at y rhyddhad treth y mae ganddynt hawl iddo.

Mae awydd sylweddol i Roi Drwy’r Gyflogres ymhlith cyflogeion ar hyn o bryd. Yn ôl arolwg diweddar y Charities Aid Foundation, mae'n debyg y byddai mwy nag un o bob pedwar oedolyn yn rhoi drwy’r cynllun Rhoi Drwy’r Gyflogres yn y dyfodol, pe bai ar gael iddynt. Mewn gwirionedd, roedd y cynllun yn arbennig o boblogaidd ymhlith phobl iau, gyda 33% o oedolion 25-34 oed a 27% o'r rhai 35-44 oed yn dweud y byddent yn debygol o'i ddefnyddio.

**Beth yw barn busnesau?**

“Gwnaethom gyflwyno’r cynllun Rhoi Drwy’r Gyflogres i gefnogi ein hamcanion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (CSR) a meithrin diwylliant o roi o fewn y cwmni. Mae'n rhoi ffordd hawdd ac effeithlon o ran treth i'n gweithwyr gyfrannu at achosion sy'n bwysig iddyn nhw, gan ganiatáu i ni gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach.

Mae cyflogeion yn gwerthfawrogi cyfleustra ac effeithlonrwydd treth y cynllun. Mae'n meithrin ymdeimlad o falchder a chyflawniad, gan wybod bod eu cyfraniadau'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae hefyd wedi cryfhau diwylliant ein cwmni, gan greu gweithlu mwy ymgysylltiedig a chyfrifol yn gymdeithasol.

Mae'r cynllun wedi darparu ffynhonnell gyllid ddibynadwy a chyson i elusennau. Ers ei gyflwyno, rydym wedi gallu codi swm sylweddol ar gyfer amrywiol achosion, gan helpu i gefnogi gwasanaethau a phrosiectau hanfodol. Mae'r rhoddion rheolaidd yn helpu elusennau gyda chynllunio hirdymor a chynaliadwyedd. Mae Gousto yn talu swm cyfatebol i bob rhodd hyd at £200 y mis fesul cyflogai.”

**Gousto**
**Manwerthwr pecynnau bwyd cenedlaethol**

# SUT I SEFYDLU CYNLLUN RHOI DRWY'R GYFLOGRES

**Rydym wedi llunio cyfres o Gwestiynau Cyffredin i chi ddechrau ar eich taith Rhoi Drwy'r Gyflogres:**

## Sut gall fy musnes gofrestru?

Mae cofrestru ar gyfer y cynllun yn gyflym ac yn hawdd i'w wneud. Dewiswch PGA sydd wedi'i gymeradwyo gan CThEF, a fydd yn rhoi canllawiau ar sut i anfon arian a pharatoi amserlenni cyflogeion, yn ogystal â gofyn i chi lenwi contract byr sy'n gofyn am eich:

- Rhif cwmni cofrestredig
- Rhif cyfeirnod PAYE
- Gwybodaeth gyswllt gweinyddwr y gyflogres, neu unigolyn cyswllt allweddol arall

Yna bydd yn cadarnhau pryd y bydd y cynllun yn weithredol a gall roi cyngor ar sut i'w hyrwyddo i gyflogeion.

## A oes unrhyw gostau?

Gellir mabwysiadu'r cynllun am ddim. Fodd bynnag, bydd asiantaethau'n codi ffi weinyddol fechan i brosesu rhoddion, a fydd yn amrywio yn dibynnu ar ba ddarparwr a ddewiswch. Er mwyn gwneud y cynllun mor hygyrch â phosibl, mae'r opsiwn gan fusnesau i dalu'r ffioedd hyn yn uniongyrchol, neu gellir eu didynnu o roddion gweithwyr cyn eu hanfon at yr elusen.

Ar ben hyn, gallwch roi swm sy'n cyfateb â rhoddion cyflogeion yn llawn neu'n rhannol i gynyddu'r cyfanswm y mae elusennau'n ei gael. Gallwch ddysgu mwy am hyn yn yr adran nesaf.

## A fydd y cynllun yn gweithio gyda fy mhrosesau Cyflogres presennol?

Bydd, gellir ymgorffori'r cynllun ym mhob system gyflogres, boed iddi gael ei rheoli'n fewnol, neu gan asiantaeth drydydd parti yn y DU neu dramor. Yn fwy na hynny, dim ond un trafodiad trydydd parti ychwanegol sydd ei angen bob tro y byddwch yn rhedeg y gyflogres, gan ei gwneud hi'n hawdd ei redeg ochr yn ochr â phrosesau presennol.

## Sut mae cyflogeion yn cofrestru?

Bydd pob asiantaeth yn cynnig dulliau cofrestru gwahanol, a allai gynnwys:

- Mewngofnodi i borth ar-lein lle gall gweithwyr reoli eu rhoddion
- Llenwi ffurflen rhodd wedi'i hargraffu a anfonir at yr asiantaeth drwy e-bost neu'r post
- Cofrestru drwy Sefydliad Codi Arian Proffesiynol

## A allaf weld i bwy mae fy ngweithwyr yn rhoi?

Na, drwy gael Asiantaeth Rhoi Cyflogres i weinyddu'r cynllun, mae pob rhodd gan weithwyr yn breifat.

**Beth yw barn busnesau?**

Fel cwmni sydd ag ethos dwfn o roi yn ôl, roedd cyflwyno Rhoi Drwy'r Gyflogres yn benderfyniad hawdd er mwyn caniatáu i'n gweithwyr yn ein siopau yng Nghaerdydd, Casnewydd a Chwmbrân gefnogi eu hoff achosion.

Rydym wedi brandio ein cynllun yn fewnol 'Jack Gives Back' yn seiliedig ar y Jac yn y bocs ar ein logo. Ac rydym wedi mynd cam ymhellach hyd yn oed, bydd pob rhodd newydd hefyd yn cael rhodd ychwanegol o £25 i annog pobl i ymuno.

Canlyniad y gwelliant hwn a'r ymgyrch wyneb yn wyneb barhaus yw bod 180 o elusennau gwahanol wedi cael eu cefnogi gan ein cyflogeion. Ers y dechrau rydym wedi codi dros £2 filiwn i elusennau ac mae dros 600 o staff yn rhoi bob mis. Mae hyn yn golygu bod bron i 40% o'n gweithwyr yn gwneud gwahaniaeth fel hyn.

Rydym hefyd wedi elwa fel cyflogwr gan ein bod wedi ennill amryw wobrau am ein cynllun, gan gynnwys Marc Ansawdd Diemwnt.

**The Entertainer**
**Manwerthwr teganau Cenedlaethol**

# DEFNYDDIO RHOI DRWY'R GYFLOGRES I'W LLAWN BOTENSIAL

**Dyma rai awgrymiadau da ar sut i ddefnyddio'r cynllun i gyrraedd eich nodau:**

### 1. Cynnig arian cyfatebol

Mae cynnig rhoddion cyfatebol yn ffordd bwerus o fanteisio i'r eithaf ar effaith rhaglen Rhoi Drwy'r Gyflogres. Ar hyn o bryd, mae gan gyflogwyr y dewis o gynnig rhoddion cyfatebol yn llawn neu'n rhannol, ac i gynnwys capiau ar faint sy'n cael ei gynnig fel rhodd gyfatebol, a gweinyddir y cyfan gan y PGA.

Nid yn unig y mae hyn yn codi mwy o arian i elusennau, mae'n annog mwy o ddefnydd ac ymgysylltiad ymhlith gweithwyr. Fel y mae'n digwydd, canfu astudiaeth ddiweddar gan Charities Aid Foundation y byddai 65% o gyflogeion 16-24 oed a 66% o'r rhai 25-34 oed yn fwy tebygol o roi pe bai eu cyflogwr yn cynnig rhodd gyfatebol.

### 2. Cael Marc Ansawdd Rhoi Drwy'r Gyflogres

Mae'r Marc Ansawdd Rhoi Drwy'r Gyflogres yn achrediad a gefnogir gan y llywodraeth sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo mudiadau sy'n cynnig ac yn hyrwyddo Rhoi Drwy'r Gyflogres i'w cyflogeion. Mae pob busnes yn gymwys ar gyfer y Marc Ansawdd safonau drwy fabwysiadu'r cynllun. Yna gallant ennill pwyntiau ychwanegol i gyrraedd gwobr Efydd, Arian, Aur, Platinwm neu Ddiemwnt. Dyfernir pwyntiau yn seiliedig ar gyfranogiad cyflogeion, sut mae ffioedd gweinyddu yn cael eu talu, a gynigir arian cyfatebol, a chynnal digwyddiadau neu redeg ymgyrchoedd mewnol.

Bydd cwmnïau sy'n ennill Marc Ansawdd yn cael tystysgrif a logo i'w defnyddio ar eu gwefan a deunyddiau'r cwmni, y gellir eu rhannu wedyn â buddsoddwyr a chwsmeriaid.

## 3. Cydnabod a gwobrwyo Rhoddwyr Drwy'r Gyflogres

Gall cydnabod cyflogeion sy'n defnyddio'r cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres, a elwir yn aml yn Rhoddwyr Drwy'r Gyflogres, atgyfnerthu diwylliant o haelioni, a all gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun yn gyffredinol. Mae sawl ffordd syml y gallwch chi wobrwyo Rhoddwyr Drwy'r Gyflogres, gan gynnwys:

- Diolchiadau - dywedwch ddiolch a chrybwyllwch Roddwyr drwy'r Gyflogres mewn cylchlythyrau cwmni, ar y fewnrwyd, neu negesfyrddau
- Cymhellion - cynigiwch fanteision bach fel diwrnod gwirfoddoli elusennol ychwanegol, nwyddau'r cwmni, neu goffi am ddim
- Codi ymwybyddiaeth o achosion sy'n bwysig iddynt - gofynnwch i'r Rhoddwyr Drwy'r Gyflogres hirhoedlog rannu pam maent yn dewis rhoi i elusennau penodol drwy flog, neges e-bost neu gyflwyniad i'w cyfoedion

## 4. Rhedeg ymgyrchoedd Rhoi Drwy'r Gyflogres

Ceir ystod eang o ymgyrchoedd y gall busnesau eu trefnu i hyrwyddo'r cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres ac annog mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau CSR ac ESG. Dyma rai ymgyrchoedd sydd wedi bod yn boblogaidd:

- Rhowch eich awr olaf o'ch cyflog - ym mis Rhagfyr, gofynnir i gyflogeion roi'r swm cyfatebol y maent yn ei ennill am awr i nodi diwedd y flwyddyn;
- Her y Garreg Filltir - gosodwch darged Rhoi Drwy'r Gyflogres ar draws y cwmni gyda diweddariadau rheolaidd neu system olrhain i ddangos y cynnydd a wnaed;
- Apeliadau brys - gofynnwch i gyflogeion gyfrannu at apeliadau brys mewn ymateb i drychinebau rhyngwladol neu genedlaethol.

Gallai'r adran Adnoddau Dynol, yr adran CSR neu bwyllgorau cyflogeion drefnu ymgyrchoedd. Fodd bynnag, os nad oes amser gan fusnesau i gynnal eu hymgyrchoedd mewnol eu hunain, gallant gyflogi PFO i hyrwyddo'r cynllun i gyflogeion.

## 5. Annog uwch-arweinwyr i hyrwyddo Rhoi Drwy'r Gyflogres

Mae cael uwch-arweinwyr fel y Prif Weithredwr neu aelodau o'r tîm arweinyddiaeth i gofrestru ar gyfer Rhoi Drwy'r Gyflogres yn anfon neges gref at gyflogeion, buddsoddwyr a chwsmeriaid eu bod yn credu yng ngwerthoedd y busnesau ac yn cryfhau hygrededd negeseuon CSR. Ar ben hyn, nhw sydd yn y sefyllfa orau i elwa ar y cymhellion treth y mae Rhoi Drwy'r Gyflogres yn eu cynnig.

Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall uwch-arweinwyr gefnogi'r cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres, gan gynnwys y canlynol:

- Gwneud cyfraniad rheolaidd i achosion sy'n bwysig iddynt;
- Rhoi rhywfaint neu'r cyfan o'u bonws blynyddol i elusen o'u dewis, neu i bartner elusen y mudiad;
- Hyrwyddo ymgyrchoedd Rhoi Drwy'r Gyflogres, naill ai drwy gyfrannu eu hunain neu annog cyflogeion eraill i gymryd rhan.

# TRAWSNEWID RHOI: CYNLLUN RHOI DRWY'R GYFLOGRES NATWEST



**Mae Michael Duncan, Pennaeth Strategaeth a Rhaglenni Rhoi, Grŵp NatWest yn rhannu sut y gwnaeth Roi Drwy'r Gyflogres yn rhan o'i strategaeth ymgysylltu â chyflogeion.**

Mae NatWest Group, sefydliad ariannol amlwg yn y DU, yn gwasanaethu dros 19 miliwn o gwsmeriaid ac yn gweithredu ar draws amrywiol sectorau, gan gynnwys manwerthu, masnachol a bancio preifat. Mae bod yn bartner hanfodol a dibynadwy i'w cwsmeriaid wrth wraidd strategaeth NatWest, ac mae'r athroniaeth hon yn ymestyn i'w gyflogeion a'i gymunedau. Mae NatWest wedi dangos ymrwymiad ers tro byd i roi rhywbeth yn ôl drwy fentrau fel ei raglen Rhoi Drwy'r Gyflogres, a gyflwynwyd ym 1987. Fel un o fabwysiadwyr cynnar y cynllun, mae NatWest wedi parhau i fod yn ymroddedig i gefnogi achosion elusennol drwy gynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres gyda Charities Trust, er gwaethaf newidiadau ym maint a strwythur y mudiad.

## Rhoi Drwy'r Gyflogres yn NatWest

Mae cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres Charities Trust yn caniatáu i gyflogeion NatWest roi'n rheolaidd i'w helusennau dewisol yn uniongyrchol o'u cyflog, cyn treth. Dros amser, bu'n rhan annatod o strategaeth ymgysylltu cyflogeion ehangach NatWest, a elwir yn ymgyrch Gwneud Da Teimlo'n Dda a gyflwynwyd yn 2017. Mae'r ymgyrch hon yn caniatáu i gyflogeion gefnogi'r elusennau sy'n golygu fwyaf iddynt. Mae Rhoi Drwy'r Gyflogres yn un o'r cynlluniau yn yr ymgyrch hon sy'n caniatáu rhoddion elusennol cyson a hyblyg gyda'r fantais ychwanegol bod rhoddion yn cael eu didynnu cyn treth, sy'n golygu bod cyflogeion yn talu llai yn gyffredinol.

Er bod NatWest wedi lleihau o ran maint ers yr argyfwng ariannol—gan grebachu o 75,000 o gyflogeion yn 2014 i 60,000 yn 2024—mae cyfranogiad cyflogwyr yn y cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres yn parhau i fod yn gadarn. Mae'r cynllun wedi gweld twf cyson mewn rhoddion cyfartalog, gyda'r cyfraniad misol nodweddiadol fesul gweithiwr yn cyrraedd dros £40 erbyn 2024. Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y cydweithwyr, mae'r ymrwymiad i roi i elusennau wedi parhau'n gryf, gyda chyflogeion yn rhoi symiau sylweddol i gefnogi achosion sy'n agos at eu calonnau.

## Annog Cyfranogiad yn y Cynllun

Er mwyn sicrhau llwyddiant Rhoi Drwy’r Gyflogres, mae NatWest wedi defnyddio strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr a sawl menter i annog cyfranogiad cyflogeion:

- Ymgyrch Hybu Flynyddol: Bob blwyddyn, mae NatWest yn cynnal “menter hybu” i annog cyflogeion i naill ai gofrestru am y tro cyntaf neu gynyddu eu rhoddion rheolaidd. Cynigiwyd rhwng £100 a £150 fel hwb ers 2015. Mae'r mentrau hyn wedi gweld cyfranogiad cyson gan tua 1,500 o gyflogeion bob blwyddyn.
- Sianeli Cyfathrebu: Mae NatWest yn hyrwyddo'r cynllun Rhoi Drwy’r Gyflogres yn weithredol drwy amryw sianeli mewnol, gan gynnwys:
    - Negeseuon e-bost yn croesawu cyflogeion newydd.
    - Postiadau rheolaidd ar Engage (platfform cymdeithasol mewnol NatWest) i gadw'r cynllun yn flaenoriaeth ym meddwl yr holl gyflogeion.
    - Negeseuon e-bost wedi'u targedu at roddwyr drwy’r gyflogres bresennol, yn eu hysbysu am ymgyrchoedd arbennig a chynigion hybu.
    - Erthyglau ar fewnrwyd y cwmni, yn tynnu sylw at fanteision Rhoi Drwy’r Gyflogres drwy ei ymgyrch ‘Gwneud Da Teimlo’n Dda’

Pwysleisiodd y tîm cyfathrebu ba mor hawdd oedd sefydlu’r cynllun Rhoi Drwy’r Gyflogres, manteision treth rhoi cyn didyniadau cyflog, a’r ffaith bod y banc yn talu’r holl gostau gweinyddol, gan sicrhau bod 100% o’r rhoddion yn mynd yn uniongyrchol i’r elusennau. Yn ogystal, gall cyflogeion reoli eu rhoddion drwy eu cyfrif, gan ganiatáu iddynt wneud rhoddion rheolaidd neu unigol, neu beidio â gwario eu rhoddion a chynilo ar gyfer digwyddiad codi arian penodol, neu noddi digwyddiad elusennol.

## Casgliad – Llwyddiant NatWest

Ers ei sefydlu ym 1987, mae cynllun Rhoi Drwy’r Gyflogres NatWest wedi codi arian sylweddol ar gyfer amrywiaeth o achosion elusennol:

- Ym mis Rhagfyr 2024, roedd 4,147 o gyfranogwyr yn y cynllun.
- At ei gilydd, mae cyflogeion wedi codi dros £118 miliwn i elusennau ers lansio'r cynllun ym 1987.
- Yn 2024 yn unig, rhoddodd cyflogeion NatWest £2.1 miliwn i 3,210 o elusennau gwahanol.
- Mae rhoddion misol, rheolaidd wedi darparu ffynhonnell incwm ddibynadwy i elusennau, gan eu galluogi i gynllunio a chyllidebu'n effeithiol.

Mae cyflogeion wedi rhoi adborth cadarnhaol yn gyson am y cynllun, gan nodi’r boddhad emosiynol o roi yn ôl, hyblygrwydd addasu rhoddion, a rhwyddineb rheoli’r broses. Fel y dywedodd un cyflogai, “Drwy ei dalu ymlaen, rydych chi'n fwy tebygol o ddylanwadu ar eraill. Mae'n teimlo'n dda, rydych chi'n cael yr ymdeimlad yna o falchder," tra bod un arall wedi pwysleisio "Rwy'n hoffi'r hyblygrwydd - gallaf gynyddu neu leihau fy rhodd bob mis yn dibynnu ar fy amgylchiadau personol.”

# DECHRAU AR EICH TAITH RHOI DRWY'R GYFLOGRES

**Gallwch chi sefydlu'r cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres yn eich mudiad mewn cyn lleied â phythefnos. Dilynwch y camau syml hyn:**

Dewch o hyd i Asiantaeth Rhoi Cyflogau o'r rhestr o asiantaethau a gymeradwywyd gan CThEF

Cofrestrwch â'ch asiantaeth ddewisol gan ddefnyddio'ch Rhif Cyfeirnod PAYE a'ch rhif Cwmni Cofrestredig

Penderfynwch sut rydych am dalu ffioedd gweinyddu

Gwnewch ddidyniadau bob tro y byddwch yn rhedeg y Gyflogres

Ewch ati i hyrwyddo'r cynllun i gyflogeion a'i integreiddio i weithgareddau CRS ac ESG

# Casgliad

## Gobeithio bod y pecyn hwn wedi eich ysbrydoli i ymuno â'r 4,000 o fusnesau yn y DU sy'n cynnig cynllun Rhoi Drwy'r Gyflogres ar hyn o bryd.

Gyda chynifer o fanteision i elusennau, gweithwyr a busnesau, mae Rhoi Drwy'r Gyflogres yn ffordd wirioneddol unigryw i bawb wneud gwahaniaeth cadarnhaol. P'un a ydych yn BBaCh sy'n chwilio am ffyrdd syml ond effeithiol o gynyddu eich effaith gymdeithasol, neu'n gorfforaeth ryngwladol sy'n chwilio am ffyrdd o hybu ymgysylltiad â Rhaglenni CSR presennol, mae mabwysiadu'r cynllun yn gam nesaf hanfodol i gyrraedd eich nodau.

A chyda seilwaith sefydledig o elusennau ac asiantaethau sydd â phrofiad o Roi Drwy'r Gyflogres eisoes ar waith, mae yna lawer o fudiadau yn barod i rannu eu cyngor ar sut y gallwch wneud y gorau o bopeth sydd gan y cynllun i'w gynnig.

## Diolch i'n partneriaid a'n cefnogwyr

Mae'r wybodaeth yn y pecyn hwn yn defnyddio gwybodaeth a phrofiad amrywiaeth o fudiadau sydd wedi ymrwymo i gynyddu Rhoi Drwy'r Gyflogres. Hoffem ddiolch i'r mudiadau canlynol am eu cyfraniad at y pecyn hwn, a'u cefnogaeth barhaus i'r ffynhonnell unigryw hon o incwm elusennol: